**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

*Gorchymyn Arfaethedig ar gyfer craffu cyn deddfu.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   D R A F F T

# 2010 Rhif

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## DATGANOLI, CYMRU

# Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron y Senedd* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Yn Llys Palas Buckingham, y *** dydd o *** 2010

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**a**), gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd, a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan ddau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010

(1) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(**a**) 2006 p.32.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Atodlen 5" yw Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Teithio rhatach

**2.**—(2) Diwygier Rhan 1 o Atodlen 5 fel a ganlyn.

(1) Ym Maes 10 (priffyrdd a thrafnidiaeth), ar ôl mater 10.1(**a**) mewnosoder—

"Mater 10.2

Teithio rhatach ar y gwasanaethau a ganlyn—

(a) gwasanaethau bws;

(b) gwasanaethau Cymreig a ddarperir o dan gytundeb masnachfraint y mae Gweinidogion Cymru'n bartïon iddo.

Mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir ym mharagraff (b) ac yn Neddf Rheilffyrdd 2005 yr ystyr a roddir yn y Ddeddf honno.".

### Diwygiadau i eithriadau cyffredinol i faterion

**3.**—(3) Yn Rhan 2 o Atodlen 5, diwygier paragraff A1 (eithriadau i faterion)(**b**) fel a ganlyn.

(1) Ym mharagraff (2) o dan y pennawd "*Priffyrdd a thrafnidiaeth"*—

(a) hepgorer "a" ar ôl is-baragraff (a), a

(b) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder ", ac

(c) rheoleiddio'r disgrifiad o gerbyd y caniateir ei ddefnyddio'n unol â threfniadau ar gyfer cludiant i ddysgwyr (gan gynnwys disgrifiad drwy gyfeirio at wneuthuriad neu gyfarpar cerbyd), ond heb gynnwys pennu safonau technegol ar gyfer gwneuthuriad neu gyfarpar sy'n wahanol i'r safonau a fuasai fel arall yn gymwys, neu a allai fod yn gymwys, i'r cerbyd hwnnw.".

(2) Ym mharagraff (14) o dan y pennawd hwnnw, mewnosoder ar y diwedd "(ar wahân i reoleiddio sy'n ymwneud â chludo oedolion goruchwylio ar gerbydau a ddefnyddir yn unol â threfniadau ar gyfer cludiant i ddysgwyr)".

(3) Ar ôl paragraff (19) o dan y pennawd hwnnw, mewnosoder—

"Ym mharagraffau (2) a (14), ystyr "trefniadau ar gyfer cludiant i ddysgwyr" yw trefniadau o'r math a ddisgrifir ym mater 5.10 sy'n cynnwys darparu cerbydau modur ac a wneir gan—

(a) awdurdodau cyhoeddus (o fewn ystyr maes 15) sy'n arfer swyddogaethau sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant, neu

(b) sefydliadau neu gyrff eraill sy'n ymwneud â darparu addysg neu hyfforddiant.".

*Enw*

Clerc y Cyfrin Gyngor

---

(**a**) Cafodd mater 10.1 ei fewnosod gan adran 122 o Ddeddf Trafnidiaeth Leol 2008 (p. 26).

(**b**) Mewnosodwyd Paragraff A1 gan erthygl 2(9) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Eithriadau i Faterion) 2009 (OS 2009/3006). Disodlwyd paragraff (2) o dan y pennawd "Priffyrdd a thrafnidiaeth" gan erthygl 3(3)(b) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amgylchedd) 2009 (OS 2009/ ).

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae'r Gorchymyn yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau a elwir yn Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel "Mesurau'r Cynulliad"). Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau cyffredinol ar arfer y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw, sy'n gymwys yn rhinwedd adran 94 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 iddi.

Mae erthygl 2 yn mewnosod mater 10.2 ym maes 10 (priffyrdd a thrafnidiaeth) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae mater 10.2 yn ymwneud â thocynnau teithio rhatach.

Mae erthygl 3 yn diwygio'r eithriadau cyffredinol i faterion o dan y pennawd "Priffyrdd a thrafnidiaeth" ym mharagraff A1 o Ran 2 o Atodlen 5. Mae'r eithriadau cyffredinol yn gymwys i'r holl faterion yn Rhan 1 o Atodlen 5.

Mae erthygl 3(2) yn diwygio eithriad (2) o dan y pennawd hwnnw, sydd yn eithriad ar gyfer rheoleiddio'r defnydd o gerbydau modur ar ffyrdd, eu gwneuthuriad a'u cyfarpar, a'r amodau o dan yr hyn y ceir eu defnyddio, ar wahân i fathau penodedig o reoleiddio. Mae'r diwygiadau'n caniatáu i'r Cynulliad wneud darpariaeth drwy Fesur ar gyfer rheoleiddio'r disgrifiad o gerbyd y ceir ei ddefnyddio'n unol â threfniadau ar gyfer cludiant i ddysgwyr o'r math a ddisgrifir ym mater 5.10 (gan gynnwys disgrifiad drwy gyfeirio at wneuthuriad a chyfarpar).

Mae erthygl 3(3) yn diwygio eithriad (14) o dan yr un pennawd, sydd yn ymwneud â diogelwch trafnidiaeth. Mae'r diwygiad yn caniatáu i'r Cynulliad wneud darpariaeth drwy Fesur ar gyfer rheoleiddio'r cludiant o oedolion goruchwylio ar gerbydau a ddefnyddir yn unol â threfniadau ar gyfer cludiant i ddysgwyr.

Ni chaniateir gwneud y ddarpariaeth a ganiateir gan y diwygiadau yn erthyglau 3(2) a (4) ond mewn perthynas â threfniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau addysg a hyfforddiant, neu gan sefydliadau neu gyrff eraill sy'n ymwneud â darparu addysg neu hyfforddiant (erthygl 3(4)).

Nid oes asesiad effaith reoleiddiol llawn wedi ei baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn, gan mai unig effaith y Gorchymyn hwn yw rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu.